

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 17 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 18 Rhagfyr 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont ar y Llawr Cyntaf, Pont y Ffowndri, Abertyleri, NP13 1BQ ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 17 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn ardderchog.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn drefnus ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer dihalogi offer deintyddol.

Roedd trefniadau llywodraethu priodol ar waith yn yr adran ond mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro adnoddau staffio er mwyn sicrhau bod digon o staff yn yr adran bob amser.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd gwybodaeth dda am hylendid y geg i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros
- Roedd amrywiaeth o asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau bod y safle a'r cyfleusterau clinigol yn addas at y diben
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon uchel
- Roedd y cleifion yn derbyn y wybodaeth gywir i wneud dewisiadau hyddysg am eu triniaeth.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi gwybod i gleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn adborth gan gleifion
- Sicrhau bod y gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn nodi deunyddiau sydd wed mynd heibio'u dyddiadau defnyddio

- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau allweddol yn nodi'r trefniadau lleol sydd ar waith yn yr adran.

Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abertyleri.

Mae'r adran yn rhan o'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn darparu amrywiaeth o driniaethau i bobl nad oes ganddynt ddeintydd y GIG.

Mae gan yr adran dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, dwy nyrs ddeintyddol reolaidd ac un derbynnydd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod gan Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont brosesau addas ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan yr adran yn ardderchog a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ysgrifenedig am gynnal hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros.

Gallai'r adran wneud mwy i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn adborth gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd yr adran i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 40 ohonynt.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan yr adran yn ardderchog. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'n wasanaeth gwych, proffesiynol a gofalgar"

"Gwasanaeth ardderchog, bob amser yn gwrtais iawn"

"Gwasanaeth gwych, fel arfer"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu. Gwnaethom sylwi hefyd fod siart wedi'i harddangos er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r lefelau uchel o siwgr a geir mewn gwahanol ddiodydd meddal.

Dyweddodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad mewn ffordd gyfeillgar ond parchus a phroffesiynol ac roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn ystod apwyntiadau.

Gwelsom fod gan y staff fynediad i amrywiaeth o bolisiau a oedd yn nodi sut y byddai gwybodaeth breifat a phersonol y cleifion yn cael ei diogelu. Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli mewn ystafell fach a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff heb gael eu clywed. Gwnaethom nodi bod y staff yn cau drws y ddeintyddfa yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom nad oedd y 9 Egwyddor¹ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r GDC yn ei gwneud hi'n ofynnol bod yr egwyddorion yn cael eu harddangos mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safonau gofal y gallant ddisgwyl eu derbyn gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r adran arddangos y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y GDC mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd.

¹ Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Roedd ffolder ar gael yn yr ystafell aros yn darparu gwybodaeth i'r cleifion am yr hyn y gallant ei ddisgwyl wrth dderbyn triniaethau cyffredin, er enghraifft, digennu a llathru. Cafodd hyn ei egluro gan ddefnyddio iaith a oedd yn hawdd ei deall a gwnaethom ei nodi fel arfer da.

Gwelsom fod costau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos i'r cleifion mewn sawl ardal yn yr adran a chadarnhaodd y cleifion eu bod yn cael gwybod am y costau cysylltiedig cyn cael unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn yr ystafell aros yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ar gael i gleifion yn Gymraeg a Saesneg. Roedd arwydd yn rhoi gwybod i'r cleifion fod copïau o rai ffurflenni ar gael yn Gymraeg ar gais.

Roedd taflen wybodaeth i'r cleifion ar gael yn yr ystafell aros a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion bod y deintydd yn gallu siarad tair iaith wahanol ac, os byddai'r cleifion am siarad unrhyw iaith arall, y gellir trefnu gwasanaeth cyfieithu i wneud hyn. Gwnaethom gydnabod hyn fel ymgais gadarnhaol er mwyn helpu i sicrhau y gall y cleifion dderbyn gofal sy'n diwallu eu hanghenion unigol o ran iaith a deall pob agwedd ar eu gofal a thriniaeth. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted ag y maent yn digwydd.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Fodd bynnag, gwnaeth un claf y sylw canlynol yn holiaduron AGIC pan ofynnwyd iddo sut y gallai'r adran wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddi:

"Cyflogi mwy o staff i leihau amseroedd aros"

Dywedwyd wrthym fod dau apwyntiad brys ar gael bob dydd i drin unrhyw gleifion sydd angen gofal brys yn ystod oriau gwaith. Caiff cleifion y mae angen gofal brys arnynt y tu allan i oriau eu cyfeirio at Linell Gymorth Ddeintyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; gwelsom fod gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gael gafael ar driniaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos yn yr ystafell aros a bod y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig a oedd yn cynnwys nodiadau am y costau a'r opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Nod hyn yw helpu'r deintydd i ddeall clefydau posibl neu nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf, a gwelsom dystiolaeth wrth edrych ar gofnodion y cleifion a gadarnhaodd fod y deintydd yn eu cofnodi'n briodol.

Hawliau pobl

Mae Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont wedi'i lleoli ar lawr cyntaf adeilad a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd eraill a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Roedd lifft ar gael i alluogi pobl ag anawsterau symudedd neu rieni â phram i gyrraedd yr adran. Roedd dau doiled y tu allan i'r adran a oedd yn cynnwys digon o le i gadeiriau olwyn.

Gwnaethom nodi y gallai'r staff gael gafael ar amrywiaeth o bolisiau'n ymwneud â chydaddoldeb a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd a oedd yn nodi'r

egwyddorion i'w dilyn er mwyn sicrhau y gall pawb dderbyn yr un cyfleoedd a chael eu trin yn gyfartal.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod cardiau sylwadau ac argymhellion ar gael i'r cleifion roi adborth ar unwaith am y gwasanaeth a ddarperir gan yr adran. Dywedwyd wrthym fod holiaduron papur ar foddhad cleifion hefyd yn cael eu dosbarthu i gleifion bob tri mis. Caiff canlyniadau'r arolygon chwarterol hyn eu gwerthuso gan y bwrdd iechyd a'u rhannu â'r adran ar ffurf bwletinau rheolaidd. Caiff adborth cleifion ei drafod bob amser yn y cyfarfodydd chwarterol a gynhelir â'r holl staff sy'n gweithio i'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Ni allem weld unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn yr adran i ddangos i'r cleifion bod yr adran yn gweithredu ar adborth gan gleifion ac yn dysgu ohono. Rydym yn argymhell bod yr adran yn ystyried y ffordd orau o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn adborth gan gleifion.

Gwelsom fod posteri 'Gweithio i Wella²' yn cael eu harddangos mewn sawl ardal yn yr adran i hysbysu'r cleifion sut y gallant godi cwyn neu bryder. Nodwyd y weithdrefn gwyno i'r staff mewn polisi cwynion a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym y byddai'r holl gwynion yn cael eu cofnodi'n ganolog gan y bwrdd iechyd a'u trafod â'r adran mewn cyfarfodydd tîm neu â'r deintydd yn uniongyrchol yn ystod y broses arfarnu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r adran ystyried y ffordd orau o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn unrhyw adborth gan gleifion.

² Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd yr adran yn cyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Rhaid i'r adran sicrhau bod y gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn nodi deunyddiau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion yn llawn.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y bwrdd iechyd bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith i sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben er mwyn helpu i ddiogelu llesiant y staff ac ymwelwyr â'r adran.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a gwelsom fod pob ardal yn yr adran ddeintyddol yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr adran yn lân.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r safle yn ddigonol pe byddai tân:

- cynhaliwyd asesiadau risg tân yn rheolaidd a rhoddwyd camau adferol ar waith
- roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael ym mhob rhan o'r adran ddeintyddol a oedd wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol

- roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal profion larymau tân ac ymarferion tân yn wythnosol
- roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol rheolaidd ar ddiogelwch tân fel sy'n ofynnol gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ers dros ddwy flynedd a gwnaethom argymhell ei fod yn cwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân er mwyn gwella ei wybodaeth.

Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r adeilad er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg³. Roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos hefyd er mwyn hysbysu'r staff am y ffordd orau o amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gallai'r staff newid yn y toiledau a oedd â drws y gellid ei gloi er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd ardal fach ar gael er mwyn i'r staff storio eu heiddo personol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i un aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar y mesurau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn yr adran i wirio bod y dulliau glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn cydfynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁴. Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig ar wahân wrth ymyl y ddeintyddfa ac er ei

³ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

bod yn fach, roedd yn amlwg yn lân ac yn daclus. Gwnaethom nodi mai dim ond un sinc a oedd yn yr ystafell ddihalogi a oedd yn cael ei defnyddio fel rhan o'r broses o olchi, glanhau a rinsio offerynnau deintyddol. Gwnaethom argymhell bod y bwrdd iechyd yn ystyried gosod sinc golchi dwylo ar wahân yn yr ystafell ddihalogi i'r staff i'w defnyddio ar ôl cwblhau pob cam o'r broses ddihalogi yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf (cyfarpar sterileiddio) yn gweithredu'n briodol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nid oedd staff yn gallu darparu tystiolaeth o hanes y gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw a gwblhawyd ar yr awtoclaf er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion dilysu.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Golygai hyn ein bod wedi ysgrifennu i'r Bwrdd Iechyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad i ofyn am hanes y gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw. Yn dilyn hyn, gwnaethom dderbyn tystiolaeth ar ôl yr arolygiad fod yr awtoclaf wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Cawsom sicrwydd hefyd y bydd y dogfennau gwasanaethu a chynnal a chadw ar gael yn yr adran yn y dyfodol ac yn cael eu cadw yn ffeil yr awtoclaf. Ceir rhagor o fanylion am y mater hwn yn Atodiad B.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth ym maes diheintio a dihalogi yn gyson yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni safonau uchel o ran rheoli heintiau mewn perthynas â meysydd megis hylendid dwylo a dulliau glanhau effeithiol.

Gwelsom fod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol a gwelsom fod gan y bwrdd iechyd gontract gyda chwmmi rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath mewn ffordd ddiogel.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn yr adran i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom dystiolaeth bod gan yr holl staff clinigol statws imiwneiddio Hepatitis B derbyniol a oedd yn golygu bod mesurau yn cael eu

cymryd er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried gosod sinc golchi dwylo ar wahân yn yr ystafell ddihalogi i'r staff i'w defnyddio ar ôl cwblhau pob cam o'r broses ddihalogi.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan yr adran weithdrefnau a threfniadau effeithiol ar waith mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau a'u cadw'n ddiogel a'u gwaredu. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Roedd polisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol a gwnaethom nodi eu bod yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁵. Fodd bynnag, er y gwelsom dystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar a'u bod yn cael eu cofnodi, gwelsom fod dyddiad defnyddio erbyn un o'r mygydau wyneb clir (ar gyfer bag hunanchwyddo) a argymhellwyd gan y gwneuthurwr wedi mynd heibio. Rydym yn argymhell bod y practis yn archebu mwgwd wyneb newydd a bod yr adran yn bwrw golwg ar ei phroses wirio er mwyn sicrhau ei bod yn gallu nodi cyffuriau a chyfarpar sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio mewn ffordd effeithiol yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio o hyd.

⁵ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen archebu mwgwd wyneb newydd yn lle'r mwgwd wyneb presennol gan fod ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio.

Rhaid i'r gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys nodi deunyddiau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio mewn ffordd effeithiol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod gweithdrefnau ar waith yn yr adran i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Roedd polisiâu cyfredol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd ar gael i'r staff a oedd yn cynnwys y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu yn codi. Gallai'r staff hefyd ofyn am gyngor a chanllawiau ar unrhyw faterion yn ymwneud â diogelu gan sawl arweinydd diogelu a nodwyd yn y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod siart llif manwl ar wahân hefyd yn cael ei arddangos yn y ddeintyddfa a oedd yn nodi'r camau y dylai'r staff eu cymryd a'r asiantaethau y dylid cysylltu â nhw os bydd unrhyw fater yn ymwneud â diogelu plant yn codi. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn arfer da ac awgrymu bod siart llif tebyg hefyd yn cael ei arddangos ar gyfer materion yn ymwneud â diogelu oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn yr adran. Roedd y ddeintyddfa mewn cyflwr da gan ei bod wedi'i hailwampio yn ddiweddar a gwelsom ei bod yn cynnwys digon o gyfarpar, offerynnau a deunyddiau.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith yn yr adran ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio

- roedd polisi ymbelydredd ar waith ac roedd y rheolau lleol wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau gwaith diogel i'r staff eu dilyn
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r adran wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol, ac yn parhau i'w cynnal, er mwyn helpu i fonitro a chyfrannu at y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth o'r canlynol:

- bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau y cydymffurfir â chanllawiau arfer gorau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ar ddihalogi a bod y canlyniadau'n cael eu monitro gan y bwrdd iechyd
- bod archwiliadau o ddelweddau radiograffeg yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn er mwyn helpu i sicrhau bod ansawdd y delweddau yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol (70% gwyb, 20% derbyniol a dim mwy na 10% yn annerbyniol).

Dywedwyd wrthym hefyd fod cynlluniau ar waith i gynnal archwiliad o gyfraddau rhoi'r gorau i smygu cyn diwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir ymhellach.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar fod hysbysiadau diogelwch cleifion yn cael eu dosbarthu i'r staff gan y bwrdd iechyd er mwyn helpu i wella ansawdd y gofal a ddarperir i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod gweithgareddau adolygu cymheiriaid yn cael eu cwblhau gan y staff clinigol ym mhob rhan o adran Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol y bwrdd iechyd, er enghraifft, archwilio ac adolygu ansawdd cofnodion cleifion ei gilydd.

Cawsom hefyd wybod bod yr adran wedi ymholi ynghylch defnyddio Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sydd wedi'i anelu at helpu'r tîm deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd

allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Cadarnhaodd yr adran nad yw'n gwneud unrhyw waith ymchwil.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd ar gael i'r staff yn yr adran a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion yn briodol a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig a dywedwyd wrthym fod copiâu o'r data yn cael eu creu a'u cadw oddi ar y safle yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir adfer y data gwreiddiol pe byddai unrhyw beth yn digwydd i'r safle neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Gwelsom fod yr hen gofnodion cleifion papur yn cael eu cadw'n unol â'r canllawiau cadw perthnasol a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Cadw cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion da yn y sampl o gofnodion y cleifion a welsom, a oedd yn helpu'r practis i ddarparu gofal o ansawdd i'r cleifion ac yn helpu i hybu llesiant a diogelwch y cleifion. Y rheswm dros hyn yw bod y cofnodion a welsom:

- yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- yn cynnwys tystiolaeth bod cleifion wedi rhoi cydsyniad i gael triniaeth
- yn cynnwys siartiau sylfaenol a siartiau wedi'u diweddarau i asesu ac olrhain cynnydd iechyd deintyddol cleifion.

Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol y gellid eu gwella:

- mae angen cofnodi'r risg periodontol a'r risg o ganser yn ogystal â phatrymau traul dannedd (e.e. athreuliad, crafiadau) yn rheolaidd
- dylid cofnodi tymheredd y claf wrth roi cyfiawnhad dros ragnodi gwrthfotigau
- mae angen i'r cyfnod o amser rhwng sganiau pelydr-x ddilyn canllawiau proffesiynol yn agosach

- mae angen cwblhau pob ffurflen FP17W⁶ yn gywir – gwelsom rai enghreifftiau o ffurflenni lle roedd gwybodaeth ar goll.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid cadw cofnodion cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

⁶Ffurflen safonol i gofnodi gweithgareddau triniaeth ddeintyddol yng Nghymru yw FP17W.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Rhodddwyd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith gan y bwrdd iechyd, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael er mwyn cefnogi'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, mae angen iddynt gael eu diwygio i nodi'r trefniadau lleol sydd ar waith yn yr adran.

Mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro adnoddau staffio'r adran er mwyn sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar y staff presennol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r adran ddeintyddol yn rhan o'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Caiff yr adran gymorth gan amrywiaeth o uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd, er enghraifft, rheolwr iechyd a diogelwch gweithredol a rheolwr dihalogi.

Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda a nodwyd gennym fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd ar gael i'r staff. Roeddent yn cael eu cynnal a'u cadw a'u rheoli gan y bwrdd iechyd a gwelsom fod yn rhaid i'r staff lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhywfaint o'r polisïau yn gyffredinol ac yn anodd cael gafael arnynt ar dudalennau mewnwyd y bwrdd iechyd. Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n berthnasol i redeg yr adran ddeintyddol yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn nodi gweithdrefnau sy'n fwy lleol a phenodol i adran Abertyleri. Rydym hefyd yn argymhell bod polisïau a gweithdrefnau allweddol yn cael eu storio gyda'i gilydd yn electronig mewn man sy'n gyflymach ac yn haws cael gafael arno.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Dywedwyd wrthym fod gan yr adran ddeintyddol yswiriant atebolrwydd cyhoeddus drwy Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid diwygio'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n berthnasol i redeg yr adran ddeintyddol yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn nodi'r trefniadau lleol sydd ar waith yn Abertyleri a'u storio'n electronig gyda'i gilydd mewn man sy'n gyflym ac yn hawdd i'r staff gael gafael arno.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi rhoi trefniadau llywodraethu addas ar waith yn yr adran. Roedd gan yr aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu rheoli'n ganolog.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y staff Gynllun Datblygiad Personol ar waith a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni gofynion DPP.

Caiff yr aelodau o'r staff eu harfarnu'n flynyddol i'w galluogi i gael adborth ar eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd pellach ar gyfer DPP.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal â'r holl staff sy'n gweithio yng Ngwasanaeth Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol y bwrdd iechyd. Mae'r pynciau cyffredin a gaiff eu trafod ym mhob cyfarfod yn cynnwys adborth gan gleifion, cydymffurfiaeth y staff o ran hyfforddiant, amseroedd aros a threfniadau rheoli heintiau. Caiff cofnod ei gadw o bob cyfarfod a gall pob aelod o'r staff gael gafael ar gopi o'r cofnodion ar system feilio electronig y bwrdd iechyd.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran. Mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o'r staff sy'n cael eu recriwtio i weithio i'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu i weithio gyda chleifion.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn ceisio sicrhau bod nifer priodol o staff yn gweithio yn yr adran bob amser drwy ddefnyddio staff o dimau deintyddol cymunedol eraill yn y bwrdd iechyd os oes angen. Fodd bynnag, pan nad yw hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym hefyd y gall hyn gael effaith andwyol ar ansawdd y gwasanaeth y gall yr adran ei ddarparu. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr adran yn Abertyleri adnoddau priodol bob amser er mwyn sicrhau bod y cleifion yn derbyn gwasanaeth cynaliadwy o ansawdd da ac nad yw'n cael effaith andwyol ar y staff presennol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gymryd mesurau er mwyn sicrhau bod gan yr adran yn Abertyleri adnoddau priodol bob amser er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu gwasanaethau heb gael effaith andwyol ar y staff presennol.

3. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont

Dyddiad arolygu: 17 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Yn ystod yr arolygiad, nid oedd y staff yn gallu rhoi tystiolaeth i AGIC o hanes y gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw a gwblhawyd ar yr awtoclaf sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr ystafell ddihalogi ac felly nid oeddem yn gallu bod yn hyderus ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.</p> <p><u>Gwelliannau sydd eu hangen</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu tystiolaeth i AGIC o hanes y gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw a 	<p>Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 2.9 Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol</p>	<p>Noder bod yr awtoclaf presennol yn cael ei gadw ar safle Clinig Pontllanfraith cyn hynny a chafodd ei symud i Abertyleri ym mis Mawrth 2019. Mae'r ffaith nad oedd tystiolaeth ar gael yn ystod yr arolygiad wedi'i chofnodi ar system cofnodi digwyddiadau Datix ac mae arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) wedi enwebu swyddog ymchwilio i gwblhau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem.</p> <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd gontract gyda Zurich ar gyfer y Cynllun Archwilio Ysgrifenedig (WSE) ar gyfer Offer Meddygol Arbenigol y mae adran Gwaith ac Ystadau y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol amdano. Caiff</p>	<p>Caroline Rowlands, Arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol</p>	<p>Dogfennau wedi'u hatodi.</p> <p>Caiff proses dadansoddi gwraidd y broblem ei chynnal dros y ddeufis nesaf.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gwblhawyd ar yr awtoclaf sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn yr ystafell ddihalogi yn Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont.</p> <p>2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd i AGIC fod y gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw sy'n cael ei gwblhau ar awtoclafau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cydfynd â'u cynlluniau archwilio ysgrifenedig unigol.</p>		<p>awtoclafau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol eu cofnodi ar gofrestr asedau, a gaiff ei chadw gan arweinydd adran Gwaith ac Ystadau y Bwrdd Iechyd dros gontractau â Zurich, pan gânt eu prynu. Mae'r arweinydd yn eu hychwanegu at gronfa ddata Zurich, sef Crimson, ac yn creu contract ar gyfer yr WSE. Drwy Crimson, mae gan beirianwyr Zurich restr o rifau cyfresol awtoclafau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a'r clinigau y maent yn cael eu cadw ynddynt. Mae Zurich yn darparu WSE yn ôl Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysau 2000. Unwaith y mae'r archwiliadau wedi'u cwblhau, caiff y dogfennau eu lanlwytho i safle Crimson gan beirianwyr Zurich. Mae gan reolwr cyfleusterau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol fynediad i safle Crimson a gall lawrlwytho dogfennau ar gyfer y gwasanaethau a chânt eu hanfon dros e-bost i'r clinigau i'w hargraffu a'u gosod yn y ffeiliau awtoclaf. Maent hefyd ar gael ar yriant-X y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ar ffurf dogfennau electronig. Caiff y dogfennau hyn eu cadw gyda'r awtoclaf hwnnw.</p> <p>Mae gan Dîm Dihalogi Gwaith ac Ystadau'r Bwrdd Iechyd Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) gyda Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>sy'n cwmpasu'r broses o ailddilysu a chynnal a chadw awtoclafau yn rheolaidd. Caiff pob awtoclaf ei brofi 3-4 gwaith y flwyddyn ac anfonir canlyniadau'r prawf dros e-bost i reolwr Cyfleusterau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ac yna i'r clinigau i'w hargraffu a'u gosod yn ffeiliau'r awtoclafau. Caiff y dogfennu electronig eu gosod ar yriant-X y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol hefyd.</p> <p>Mae gofyn i reolwr Cyfleusterau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a thîm Dihalogi yr adran Gwaith ac Ystadau fonitro gweithgarwch Zurich mewn perthynas â'r WSE, yn ogystal â'r profion cynnal a chadw ac ailddilysu a gaiff eu cwblhau gan Unigolion Cymwys adran Gwaith ac Ystadau'r Bwrdd lechyd, er mwyn sicrhau bod awtoclafau'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn cael eu harchwilio a'u profi yn rheolaidd. Yn ôl y Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer Awtoclafau, Peiriannau Diheintio a Chywasgwyr a rhestr wirio AGIC, mae'n ofynnol i staff y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ffeilio pob dogfen a hysbysu'r Rheolwr Cyfleusterau os bydd angen tynnu sylw at archwiliad neu brawf.</p>		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Vicki Jones

Teitl swydd:

Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol

Dyddiad:

26 Medi 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Ddeintyddol Canolfan y Bont

Dyddiad arolygu: 17 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r adran arddangos y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y GDC mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd.	Gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Mae 9 Egwyddor y GDC wedi'u lawrlwytho o'i wefan a'u lamineiddio a'u hychwanegu at yr ystafell aros.	Vicki Jones	Cwblhawyd
Rhaid i'r adran ystyried y ffordd orau o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn unrhyw adborth gan gleifion.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Mae'r adran yn cwblhau arolygon boddhad cleifion ac yn eu trafod yng nghyfarfodydd y practis a gweithredir ar unrhyw wybodaeth am feysydd i'w gwella. Caiff gwybodaeth ei datblygu os yw'n berthnasol i glinigau eraill er mwyn sicrhau y gwneir gwelliannau. Bydd y	Vicki Jones	3 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		clinig yn ymdrechu i osod hysbysfwrdd ar wal yr ystafell aros er mwyn hysbysu'r cleifion o unrhyw welliannau sylweddol yn dilyn yr holiadur cleifion.		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried gosod sinc golchi dwylo ar wahân yn yr ystafell ddihalogi i'r staff i'w defnyddio ar ôl cwblhau pob cam o'r broses ddihalogi.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae tîm rheoli heintiau'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau asesiad risg ar yr ystafell ddihalogi ac wedi nodi bod angen ysgrifennu achos busnes yng nghynllun gweithredu WHTM01-05 Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys arfarniadau o opsiynau busnes ar gyfer sterileiddio canolog	Liz Walters	3-6 mis
Rhaid i un aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant cyfredol ar ddiogelwch tân.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Roedd yr aelod hwnnw o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân ond ni wnaeth hysbysu'r swyddfa ganolog ac felly ni chafodd ei gofnodi.	Vicki Jones	Cwblhawyd
Mae angen archebu mwgwd wyneb newydd yn lle'r mwgwd wyneb presennol gan fod ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol restr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl gyarpar brys yn cael ei wirio'n wythnosol (gan gynnwys gwirio'r	Liz Tantrum	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mygydau) a bod cofnod yn cael ei lofnodi. Mae'r staff wedi cael eu hysbysu bod angen iddynt edrych ar ddyddiadau darfod y mygydau. Mae mwgwd newydd wedi cael ei osod yn lle'r hen un		
Rhaid i'r gwiriadau o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys nodi deunyddiau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau defnyddio mewn ffordd effeithiol.		Caiff y rhestr wirio ar gyfer cyffuriau a chyfarpar brys ei chwblhau'n wythnosol. Ni wnaethant sylwi ar ddyddiad darfod y mwgwd. Mae pob aelod o staff y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wedi derbyn e-bost er mwyn sicrhau eu bod yn edrych ar ddyddiad darfod mygydau anadlu	Vicki Jones	Cwblhawyd
Rhaid cadw cofnodion cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	Roedd y deintydd a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cofrestru ar gyfer cwrs (16.12.19) i roi diweddariad ar safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Gofynnwyd iddo hefyd gwblhau prosiect gwella ansawdd er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw i'r safon ofynnol	Vicki Jones	Mis
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid diwygio'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n berthnasol i redeg yr adran ddeintyddol yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn nodi'r trefniadau lleol sydd ar waith yn Abertyleri a'u storio'n electronig gyda'i gilydd mewn man sy'n gyflym ac yn hawdd i'r staff gael gafael arno.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi sy'n nodi mai dim ond ar ffurf electronig y dylai polisïau a gweithdrefnau gael eu cadw ac ni ddylent gael eu haddasu gan eu bod yn cwmpasu pob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae Gyriant-X y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn cael ei ddiweddararu ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys adran a fydd yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i bolisïau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn mynd ati'n weithredol i annog y staff i beidio ag argraffu polisïau electronig.</p>	<p>Vicki Jones</p>	<p>3 mis</p>
<p>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gymryd mesurau er mwyn sicrhau bod gan yr adran adnoddau priodol bob amser er mwyn sicrhau ei bod yn gallu darparu gwasanaethau heb gael effaith andwyol ar y staff presennol.</p>	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i sicrhau bod staff ar gael er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau pan fydd staff yn absennol oherwydd salwch yn yr hirdymor neu ar absenoldeb mamolaeth. Mewn achos o absenoldeb byrdymor oherwydd salwch, caiff staff eraill o'r Gwasanaeth</p>	<p>Vicki Jones</p>	<p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Deintyddol Cymunedol eu dargyfeirio i'r clinig os ydynt ar gael		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Vicki Jones

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol

Dyddiad: 12 Tachwedd 2019